# Genedigaeth
## gwersi gwrando, darllen, deall a thrafod

## Y Geni
## Monolog gan Manon Stffan Ross
## Nodiadau Athrawon

Gwers gwrando, deall a thrafod dosbarth cyfan. Yr Athro/awes i ddarllen y monolog i'r dosbarth cyfan (awgrym – er mwyn ei darllen yn ddramatig efallai yn byddai'n syniad paratoi o flaen llaw).

**Rhybudd - angen bod yn ystyrlon o gefndir y plant e.e. colled Mam, plentyn wedi ei fabwysiadu a.y.y.b.**

<u>Trafodaeth ddosbarth</u>

- Beth sy'n cael ei drafod yn y monolog?
- Ydych chi'n credu fod y testun wedi cael ei gyfleu yn effeithiol?
- Sut ydych chi'n teimlo ar ôl gwrando ar y monolog?
- Pa rannau o'r monolog ydych chi yn eu hoffi neu ddim yn eu hoffi a pham?
- Trafodwch yr ansoddeiriau o fewn y monolog sy'n ymdrin â theimladau ac emosiynau.

Dangoswch y dudalen olaf i'r dosbarth gyda'r craffwr a thrafodwch y ddeialog.



Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd

Llythrennedd
Cynllun Ysgolion Iach Gwynedd

# Geni

## monolog gan Manon Steffan Ros

Ma' 'na r'wbath wedi newid.

(saib)

Ganol nos oedd hi, ac o'n i'n cysgu. Yn sydyn iawn, mi ddechreuodd y walia' gau i mewn arna fi, a 'ngwasgu fi'n dynn, dynn. O'dd o'n afiach - O'n i myn siŵr o'n i'n effro ta jest yn cael hunlla ofnadwy.

(saib)

Dwi'n deud walia. Dim walia ydyn nhw go iawn. Ma' nhw'n feddal ac yn gynnas, ac ma'i lliw nhw'n newid o hyd. Y rhan fwya o'r amser, ma' nhw'n dywyll, ond weithia mae o fel tasa nhw'n goleuo'n binc i gyd.

Enw'r walia ydi Mam.

Dwn i'm sud dwi'n gwbod hynny, na sut dwi'n gwybod am betha fel bloda ac awyr las a lan y môr. Dwi'n gwbod 'mod i'n hollol naddem jest dechra ydw i, yn fywyd newydd sbon- ond dwi fatha mod i'n cofio petha, bod na amsar di bod o'r blaen.

Ond fedar hynny ddim bod, na fedar? Dim a finna dal ym mol Mam.

(saib. Sŵn muffled y tu allan i'r bol- Mae Mam yn cael contraction.)

(mewn poen ond dim lot) Aaaa! Ma'r bol yn gwasgu o 'nghwmpas i eto, ac ma'n rhaid bo Mam yn ei deimlo fo hefyd achos dwi'n ei chlywed hi'n gweiddi.

O'dd gin i ofn bysa wbath fel 'ma'n digwydd.

Yn y dechra, roedd na ddigon o le i mi fama. Ro'n i'n teimlo mor fach, fel taswn i mewn clamp o ogof. Ond mae o wedi mynd yn llai ac yn llai, y walia yn cau i mewn arna fi.

Neu ella ma fi sy'n mynd yn fwy.

Dwi'n ffindio petha newydd... siapia od, petha hir, gwelw, ac wedyn dwi'n sylweddoli - Rhanna' ohona fi ydyn nhw, newydd dyfu. Coesa a thraed, a breichia a bysadd. Rhaff hir o gig sy'n mynd o 'mol i ac yn cysylltu i'r walia. Weithia ma mawd i'n ffindio'i ffor at 'y ngwynab, a dwi'n sugno fo. Er mod i ddim yn siŵr pam.

(saib)
O!
Mae rwbath yn newid eto. Dwi'n teimlo yn drwm, a fedra i'm dallt o... Ond ia, dyna ydi o. Y dŵr o 'nghwmpas i... Mae o'n mynd. Ma Mam yn neidio, fel tasa hitha'n teimlo 'run fath... Dwi ddim yn licio hyn...

(saib)

Ers y dechra un, ma' Mam wedi bod yn siarad efo fi. Y rhan fwya' o'r amser, mae hi'n siarad efo pobol er'ill, ond dwi'n gallu deud pan ma' hi'n siarad efo *fi*, achos ma'i llais hi'n mynd yn feddal ac yn isel i gyd. Yn aml iawn, mae hi'n mwytho fi drwy'r walia' tra ma' hi'n siarad, a dwi'n teimlo'i chledra hi, fel tonna' drosta i.

Weithia, ma' hi'n chwara miwsic, hefyd, miwsic tawel, heddychlon, heb eiria'. Ond ma'n well gin i'r caneuon sy'n g'neud iddi ganu'n uchel, y rhai ma' hi'n gwrando arnyn nhw yn y car neu pan ma' hi'n cwcio. Ma' hi'n symud pan ma' hi'n gwrando ar rheiny, a felly dwi'n cael fy suo 'nol a 'mlaen, rhythm y caneuon yn cyd-fynd efo'i symudiadau. Ma' ei llais hi yn cario, fel cryndod, i lawr ata i, a dwi'n teimlo'r gwahaniaeth rhwng y nodau isel a'r nodau uchel.

(saib)

Dydi o ddim yr un fath pan ma' hi'n gweiddi mewn poen. Dwi ddim yn licio'r math yna o gryndod.

(saib)

Dwi ddim yn gwybod pa mor hir dwi di bod yma, pa mor hir dwi di bod yn fyw... Doedd o ddim yn fflach sydyn o fywyd, ddim yn wbath ddigwyddodd mewn eiliad. Roedd o fel bod curiad calon Mam yn llifo'r bywyd i mewn i fi'n ara' deg, fel tasa niwl yn clirio a finna yna, yn fyw, yn bod. Dwi'n meddwl 'mod i wedi dechra' tua'r un adeg ddaru Mam ddychmygu fi fel babi go iawn, rhywbeth o gig a gwaed y bydda hi'n dal yn ei breichia'.

(saib)

Dwi bron yn siŵr mod i'n mygu, neu'n mynd yn rhy drwm i aros yn fama, yn gynnas ym mol Mam. Dwi'n teimlo disgyrchiant am y tro cynta, yn fy ngwthio i lawr, i lawr. Ma' rwbath ar fin digwydd.

A dwi'n gywir, achos ma'r gwasgu'n mynd yn waeth, a dwi'n meddwl mod i'n mynd i fyrstio bol Mam. Ma hi'n gweiddi mor uchal rŵan.

Ma gin i ofn ei brifo hi.
Mae ei gwaed hi'n pwmpio o 'nghwmpas i gyd, fatha drymia. Fatha rhythm cân dwi'n ei nabod ers y dechra. Mae o di bod yna erioed- sŵn ei chalon hi.

Dwi'm isho bod hebddo fo.

(saib)

Ma'r gwasgu yn mynd yn waeth ac yn waeth ac yn waeth, a dwi prin yn cael hoe o gwbl, yn teimlo fel sa 'mhen i'n mynd i fyrstio. Ma sŵn Mam wedi newid, a dwi ddim yn licio hyn, dwi ddim yn licio hyn, dwi ddim yn...

(s n panig y geni, pwsho a bustachu.)

Dwi'n mynd i ddisgyn.
Mae 'na fysedd yn cyffwrdd fy mhen i - Y cyffyrddiad cynta! Dim llaw Mam, chwaith, ac ma' nhw'n teimlo'n rhyfedd - Yn galed ac yn oer. A rhywsut, dwi'n gwybod fod 'na rywbeth ofnadwy ar fin digwydd...

(sŵn muffled "Pwwwwwsh!" ac wedyn mae'r synau yn stopio bod yn muffled - Pen y babi wedi ei eni. Mam yn anadlu'n drwm, yn emosiynol, a Dad.)

(panig) Dwi methu gweld!

Ma pob dim mor llachar, a mor uchel... Mae 'mhen i'n teimlo'n wahanol,ond y gweddill ohona fi dal yn cael ei ddal yn dynn gan fol Mam.

(llais y fydwraig. "Ma'r pen allan, un pwsh arall ac Mi fydd o wedi ei eni! Ty'd wan!" Mam yn gwthio eto.)

Dwi wedi 'ngeni.

Ma'r ddynas-bysadd-oer yn fy nghodi fi, ac yn fy rhoi i ym mreichia rhywun. Ma'r holl beth fatha hunlla afiach, heb y dŵr o nghwmpas i, ac ma'r gola mor llachar a'r sŵn yn uchal, uchal. Ma rhywun yn rhwbio fi efo cadach, a dwi'n gwneud rwbath newydd sbon, rwbath 'sa neb wedi 'nysgu fi sud i neud.

(sŵn anadl)

Dwi'n anadlu.
(anadl arall)

Mae 'na betha tu mewn i mrest i- sgyfaint- yn troi o fod yn betha gwag i fod yn llawn aer- Dwi'n teimlo fo'n chwyddo, fatha megin. Ma blas yr awyr iach mor felys, mor braf- Y teimlad gora yn y byd. Efo pob anadl, ma' petha'n dod yn gliriach- dwi'n gweld yn well, ac ma'r synna'n haws i'w dodda.

(sŵn Mam yn sibrwd "helo mach i... mabi bach i... O! sbïa bysadd bach bach!")



Dwi dal yn gallu teimlo curiad calon Mam, ond ddim ynddi hi, rŵan, ond tu mewn i fi. Rhyfedd fel ma'r curiad yna wedi ei rannu rhwng y ddau ohona ni, rŵan, ond heb fynd yn wan. A dwi'n dallt y bydda i'n cario curiad calon Mam y tu fewn i fi am byth, miwsig ei chorff hi yn fy ngwaed.

(Mam- "Llygid mawr siriys! 'Na chdi, 'mach i, ma' pob dim yn iawn rŵan, 'li...")

Dwi'n nabod y llais yna.

(Mam mewn llais tawel tawel: "Ti di cael sioc, do mach i? Ma'n wahanol yn y byd mawr tu allan i 'mol i, mashwr...")

Llais Mam.
Mae o'n swnio'n wahanol, ond yr un fath. Dwi'n sbïo i fyny ac yn trio gweld, er mor llachar ydi hi, yn trio gweld yn iawn.

("mae'n sbïo arna fi! sbïa llgada mawr glas...")

Ac ma' hi'n dod yn glir. Ceg mawr yn gwenu, a llygid blinedig.

Mam.

("helo, mach i... helo...")

A dwi'n gwbod, tra byddai byw, nai byth weld gwynab mor dlws a gwynab Mam.

("Dyna chdi, 'mach i... Helo, 'mabi del i...")

Helo, Mam. Helo.